# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd
dydd Llun, 26 Medi 2022 am 7 yr hwyr dros zoom.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** JF, BH, RJ, LJ, VO, RWO (clerc), AP, JAR (Cadeirydd), EABT, KT.

Ymddiheuriadau: Dim

**2. Datgan Diddordeb:** KT, Eitem 6.

**3. Trafodaeth gyda SCCH Heddlu Gogledd Cymru lleol (os lefel gwaith yn caniatau mynychu)**

Y swyddog wedi methu a bod yn bresennol.

**4. Arwyddo cofnodion Hydref 2022.**

Derbynwiyd y cofnodion fel rhai cywir.

JF yn cynnig, LJ yn eilio.

**5. Materion yn codi**

5.1 Y clerc yn disgwyl ymweliad safle gan G L Jones i edrych ar y gwaith atgyweirio ar y ffens.

5.2 Y clerc yn parhau i wneud ymholiadau am brisiau trin waliau’r fynwent (un pris wedi ei dderbyn hyd yn hyn)

5.3 Dim ymateb i ymholiaday ynglyn a mantolen Ffrindiau Bodedern. Y clerc i wneud ymholiadau pellach.

**6. Deddf Cynllunio a Gwlad**

Dim

**7. Gohebiaeth i'w adolygu.**

7.1 CSYM yn gofyn enwebiad Pencampwr Iaith Gymraeg. RJ wedi ei enwebu.

7.2 CSYM yn gofyn os oedd lleoliad gallai gael ei ddefnyddio fel "Hwb Cadw'n Gynnes" i'r gymuned. Nodir nad yw'r cyngor cymuned yn edrych ar ol unrhyw safle.

7.3 Derbyniwyd cwyn fod bin y maes chwarae wedi ei ddwyn. Y cadeirydd yn nodi ei bod wedi bod yno i gasglu sbwriel– y clerc i drefnu cael bin newydd gan CSYM, a hefyd gyrru nodyn i'r ysgolian Gynradd ac Uwchradd i atgoffa'r plant i beidio a gadael sbwriel.

**8. Talaidau i'w gwneud.**

8.1 Cadarnhawyd fod taliad o £1800 wedi ei wneud i Leigh Thomas am dorri'r parc a mynwent (awdurdodwyd Gorfennaf 2022)

**9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.**

9.1 RJ yn nodi ei fod wedi trefnu casglu sbwirel yn y pentref, ond fod baw ci yn parhau i fod yn broblem yn y pentref.

9.2 KT yn nodi bod grantiau i'w cael drwy Medwrn Mon gyda'r Llifon Alliance.

9.3 I gadarnhau yn y cyfarfod nesaf swm arain elusen David Williams (£5 neu £10 y pen)

9.4 Y clerc wedi trafod y lladrata diweddar yn y penterf gyda'r heddlu lleol– swyddog i fynychu y cyfarfod nesaf.

9.5 VO a LJ wedi mynychu cyfarfod dwieddaraf Towyn Trewan. Clerc TT i yrru'r cofnodion nesaf i'r clerc.

**10. Dyddiad cyfarfod nesaf.**

28 Tachwedd 2022 dros zoom.